*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 7(3) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn 28 diwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu pan fo toriad am fwy na phedwar diwrnod.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 1376 (Cy. 242)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# BWYD, CYMRU

# GARDDWRIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 3) 2019

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pŵer a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â bwyd a garddwriaeth.

*Regulations made by the Welsh Ministers, laid before the National Assembly for Wales under paragraph 7(3) of Schedule 7 to the European Union (Withdrawal) Act 2018, for approval by resolution of the National Assembly for Wales within 28 days beginning on the day on which the Regulations were made, subject to extension for periods of dissolution, or recess for more than four days.*

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2019 No. 1376 (W. 242)

# EXITING THE EUROPEAN UNION, WALES

# FOOD, WALES

# HORTICULTURE, WALES

## The Rural Affairs (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) (No. 3) Regulations 2019

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations are made in exercise of the power conferred by paragraph 1(1) of Schedule 2 and paragraph 21 of Schedule 7 to the European Union (Withdrawal) Act 2018 (c. 16) in order to address failures of retained EU law to operate effectively and other deficiencies arising from the withdrawal of the United Kingdom from the European Union.

These Regulations make amendments to legislation relating to food and horticulture.

Mae rheoliad 2 yn mewnosod darpariaeth drosiannol yn Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009. Effaith y ddarpariaeth drosiannol honno yw na fydd person yn cyflawni trosedd mewn perthynas â methiant i gydymffurfio ag Erthygl 7 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 543/2011 o dan amgylchiadau penodedig penodol.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010"), sy'n darparu ar gyfer gorfodi a gweithredu safonau marchnata sy'n gymwys i wyau deor, cywion dofednod buarth fferm, ac wyau yn eu plisgyn ar gyfer eu bwyta.

Mae rheoliad 3(2) yn mewnosod diffiniad o "trydedd wlad" yn rheoliad 3(1) o Reoliadau 2010. Mae rheoliad 3(3) a (4) yn diwygio'r Atodlenni i Reoliadau 2010 er mwyn dileu cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yr UE na fydd yn bodoli mwyach ar ôl y diwrnod ymadael o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae rheoliad 3(5) yn dileu cyfeiriad at "cenedlaethol" o Atodlen 3 i Reoliadau 2010 er mwyn cyd-fynd â newidiadau sy'n cael eu gwneud i gyfraith arall yr UE a ddargedwir.

Mae rheoliad 4 yn diwygio Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011"), sy'n darparu ar gyfer gorfodi a gweithredu safonau marchnata sy'n gymwys i gig dofednod. Mae'r diwygiad yn mewnosod diffiniad o "trydedd wlad" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2011.

Mae rheoliad 5 yn diwygio Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019. Mae'r diwygiad o dan sylw, yn ei dro, yn gwneud newidiadau i Reoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2019 fel nad yw person yn cyflawni trosedd sy'n ymwneud â methiant i gydymffurfio ag Erthygl 2(2)(b) o Reoliad y Comisiwn (EC) 1825/2000 o dan amgylchiadau penodedig penodol.

Mae rheoliad 6 yn diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019. Mae'r diwygiadau dan sylw yn eu tro yn gwneud newidiadau i Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014. Mae'r diwygiadau cyntaf yn dileu cyfeiriadau at stociau a ddelir "o fewn y cyfnod cyn y diwrnod ymadael" ac "ar y diwrnod ymadael". Mae rheoliad 6(3) yn mewnosod "caniateir marchnata cynhyrchion eraill y mae paragraff (3) yn gymwys iddynt hyd nes diwedd y cyfnod perthnasol" sy'n sicrhau y caniateir parhau i farchnata cynhyrchion enw bwyd gwarchodedig/dynodiad daearyddol nad ydynt yn winoedd am dair blynedd o'r diwrnod drannoeth y diwrnod ymadael.

Regulation 2 inserts a transitional provision into the Marketing of Fresh Horticultural Produce (Wales) Regulations 2009. The effect of that transitional provision is that a person will not commit an offence in relation to a failure to comply with Article 7 of Commission Implementing Regulation (EU) 543/2011 in certain specified circumstances.

Regulation 3 amends the Eggs and Chicks (Wales) Regulations 2010 ("the 2010 Regulations"), which make provision for the enforcement and execution of marketing standards applicable to eggs for hatching, farmyard poultry chicks, and eggs in shell for human consumption.

Regulation 3(2) inserts a definition of "third country" into regulation 3(1) of the 2010 Regulations. Regulation 3(3) and (4) amends the Schedules to the 2010 Regulations to remove references to EU legislation which will no longer exist after exit day as a result of the withdrawal of the United Kingdom from the European Union. Regulation 3(5) removes a reference to "national" from Schedule 3 to the 2010 Regulations to align with changes being made to other retained EU law.

Regulation 4 amends the Poultrymeat (Wales) Regulations 2011 ("the 2011 Regulations"), which make provision for the enforcement and execution of marketing standards applicable to poultrymeat. The amendment inserts a definition of "third country" into regulation 2(1) of the 2011 Regulations.

Regulation 5 amends the Food (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019. The amendment in question, in turn, makes changes to the Beef and Veal Labelling (Wales) Regulations 2019 so that a person does not commit an offence relating to a failure to comply with Article 2(2)(b) of Commission Regulation (EC) 1825/2000 in certain specified circumstances.

Regulation 6 amends the Food Information (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019. The amendments in question in turn make changes to the Food Information (Wales) Regulations 2014. The first amendments remove references to stocks held "within the period before exit day" and "as at exit day". Regulation 6(3) inserts "other products to which paragraph (3) applies may continue to be marketed until the end of the relevant period" which ensures non wine protected food name/geographical indicator products may continue to marketed for three years from the day after exit day.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 7(3) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn 28 diwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu pan fo toriad am fwy na phedwar diwrnod.*

*Regulations made by the Welsh Ministers, laid before the National Assembly for Wales under paragraph 7(3) of Schedule 7 to the European Union (Withdrawal) Act 2018, for approval by resolution of the National Assembly for Wales within 28 days beginning on the day on which the Regulations were made, subject to extension for periods of dissolution, or recess for more than four days.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2019 Rhif 1376 (Cy. 242)

## 2019 No. 1376 (W. 242)

## YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

## EXITING THE EUROPEAN UNION, WALES

## BWYD, CYMRU

## FOOD, WALES

## GARDDWRIAETH, CYMRU

## HORTICULTURE, WALES

# Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 3) 2019

# The Rural Affairs (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) (No. 3) Regulations 2019

*Gwnaed* *23 Hydref 2019*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *25 Hydref 2019*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

*Made* *23 October 2019*

*Laid before the National Assembly for Wales* *25 October 2019*

*Coming into force in accordance with regulation 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the power conferred by paragraph 1(1) of Schedule 2 and paragraph 21 of Schedule 7 to the European Union (Withdrawal) Act 2018(**1**), make the following Regulations.

(**1**) 2018 p. 16.

(**1**) 2018 c. 16.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, fod angen gwneud y Rheoliadau hyn heb osod drafft o'r offeryn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, na chymeradwyo'r drafft hwnnw drwy benderfyniad ganddo.

Yn unol â pharagraff 4(a) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch diwygio Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019(**1**) a diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019(**2**).

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio'r Rheoliadau hyn o ran diwygio Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009(**4**), Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010(**5**), Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011(**6**), Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 a Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 3) 2019.

(2) Ac eithrio rheoliadau 5 a 6, a ddaw i rym yn union cyn y diwrnod ymadael, daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael.

(**1**) O.S. 2019/732 (Cy. 137).
(**2**) O.S. 2019/XXX (Cy. XXX).
(**3**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1.
(**4**) O.S. 2009/1551 (Cy. 151), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/732 (Cy. 137). Mae'r diwygiadau hyn i fod i ddod i rym ar y diwrnod ymadael. Mae offerynnau diwygio eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.
(**5**) O.S. 2010/1671 (Cy. 158), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/463 (Cy. 111) ac O.S. 2019/732 (Cy. 137). Mae'r diwygiadau hyn i fod i ddod i rym ar y diwrnod ymadael. Mae offerynnau diwygio eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.
(**6**) O.S. 2011/1719 (Cy. 195), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/3270 (Cy. 320). Mae O.S. 2011/1719 (Cy. 195) wedi ei ddiwygio hefyd gan O.S. 2019/463 (Cy. 111) ac O.S. 2019/732 (Cy. 137) a daw'r diwygiadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael.

The Welsh Ministers are of the opinion that, by reason of urgency, it is necessary to make these Regulations without a draft of the instrument being laid before, and approved by resolution of, the National Assembly for Wales.

In accordance with paragraph 4(a) of Schedule 2 to the European Union (Withdrawal) Act 2018, the Welsh Ministers have consulted the Secretary of State with regard to the amendment of the Food (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019(**1**) and the amendment of the Food Information (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019(**2**).

As required by Article 9 of Regulation (EC) No 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(**3**) there has been open and transparent public consultation during the preparation of these Regulations with regard to the amendment of the Marketing of Fresh Horticultural Produce (Wales) Regulations 2009(**4**), the Eggs and Chicks (Wales) Regulations 2010(**5**), the Poultrymeat (Wales) Regulations 2011(**6**), the Food Information (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019 and the Food (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019.

**Title and commencement**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Rural Affairs (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) (No. 3) Regulations 2019.

(2) Save for regulations 5 and 6 which come into force immediately before exit day, these Regulations come into force on exit day.

(**1**) S.I. 2019/732 (W. 137).
(**2**) S.I. 2019/XXX (W. XXX).
(**3**) OJ No. L 31, 1.2.2002, p. 1.
(**4**) S.I. 2009/1551 (W. 151), amended by S.I. 2019/732 (W. 137). These amendments are due to come into force on exit day. There are other amending instruments but none is relevant.
(**5**) S.I. 2010/1671 (W. 158), amended by S.I. 2019/463 (W. 111) and S.I. 2019/732 (W. 137). These amendments are due to come into force on exit day. There are other amending instruments but none is relevant.
(**6**) S.I. 2011/1719 (W. 195), amended by S.I. 2013/3270 (W. 320). S.I. 2011/1719 (W. 195) is also amended by S.I. 2019/463 (W. 111) and S.I. 2019/732 (W. 137) with these amendments coming into force on exit day.

**Diwygio Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009**

**2.** Yn Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009, ar ôl rheoliad 22 mewnosoder—

**"Darpariaethau trosiannol: ymadael â'r UE**

**23.**—(1) Nid yw rheoliad 4 yn gymwys mewn perthynas â methiant i gydymffurfio ag Erthygl 7 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn 543/2011—

(a) os yw'r mater sy'n ffurfio'r toriad honedig yn ymwneud â chynnyrch a osodwyd ar y farchnad cyn diwedd y cyfnod o 21 o fisoedd sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r diwrnod ymadael yn digwydd, a

(b) pe na bai'r mater sy'n ffurfio'r toriad honedig wedi ffurfio toriad o'r Rheoliad hwnnw fel yr oedd yn gymwys yn union cyn y diwrnod ymadael.

(2) Ni chaiff swyddog awdurdodedig arfer y pwerau o dan reoliad 11(1) mewn perthynas â methiant i gydymffurfio ag Erthygl 7 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn 543/2011—

(a) os yw'r mater sy'n ffurfio'r toriad honedig yn ymwneud â chynnyrch a osodwyd ar y farchnad cyn diwedd y cyfnod o 21 o fisoedd sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r diwrnod ymadael yn digwydd, a

(b) pe na bai'r mater sy'n ffurfio'r toriad honedig wedi ffurfio toriad o'r Rheoliad hwnnw fel yr oedd yn gymwys yn union cyn y diwrnod ymadael."

**Amendment of the Marketing of Fresh Horticultural Produce (Wales) Regulations 2009**

**2.** In the Marketing of Fresh Horticultural Produce (Wales) Regulations 2009, after regulation 22 insert—

**"Transitional provisions: withdrawal from the EU**

**23.**—(1) Regulation 4 does not apply in relation to a failure to comply with Article 7 of Commission Implementing Regulation 543/2011 if the matter constituting the alleged contravention—

(a) relates to a product that was placed on the market before the end of the period of 21 months beginning on the day on which exit day falls, and

(b) would not have constituted a contravention of that Regulation as it applied immediately before exit day.

(2) An authorised officer must not exercise the powers under regulation 11(1) in relation to a failure to comply with Article 7 of Commission Implementing Regulation 543/2011 if the matter constituting the alleged contravention—

(a) relates to a product that was placed on the market before the end of the period of 21 months beginning on the day on which exit day falls, and

(b) would not have constituted a contravention of that Regulation as it applied immediately before exit day."

**Diwygio Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(1), yn y lle priodol, mewnosoder y diffiniad a ganlyn—

"ystyr "trydedd wlad" ("*third country*") yw unrhyw wlad neu diriogaeth heblaw—

(a) y Deyrnas Unedig;

(b) Beilïaeth Guernsey;

(c) Beilïaeth Jersey;

(d) Ynys Manaw;".

**Amendment of the Eggs and Chicks (Wales) Regulations 2010**

**3.**—(1) The Eggs and Chicks (Wales) Regulations 2010 are amended as follows.

(2) In regulation 3(1), at the appropriate place, insert the following definition—

""third country" ("*trydedd wlad*") means any country or territory other than—

(a) the United Kingdom;

(b) the Bailiwick of Guernsey;

(c) the Bailiwick of Jersey;

(d) the Isle of Man."

(3) Yn Atodlen 1, yn Rhan 2, yn y tabl, hepgorer rhes 6.

(4) Yn Atodlen 2, yn Rhan 2, yn y tabl—

(a) yn rhes 2, yng ngholofn 2, hepgorer "Erthygl 3 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008", a

(b) hepgorer rhesi 18 i 20.

(5) Yn Atodlen 3, yn y tabl, yn rhes 1, yng ngholofn 3, hepgorer "cenedlaethol".

**Diwygio Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011**

**4.** Yn Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011, yn rheoliad 2(1), yn y lle priodol, mewnosoder y diffiniad a ganlyn—

"ystyr "trydedd wlad" ("*third country*") yw unrhyw wlad neu diriogaeth heblaw—

(a) y Deyrnas Unedig;

(b) Beilïaeth Guernsey;

(c) Beilïaeth Jersey;

(d) Ynys Manaw."

**Diwygio Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

**5.** Yn Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019, yn rheoliad 4(2), yn lle is-baragraff (b) rhodder—

"(b) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) Nid yw paragraff (1)(b)(ii) yn gymwys mewn perthynas â methiant i gydymffurfio ag Erthygl 2(2)(b) o Reoliad (EC) Rhif 1825/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor—

(a) os yw'r mater sy'n ffurfio'r toriad honedig yn ymwneud â chynnyrch a osodwyd ar y farchnad cyn diwedd y cyfnod o 21 o fisoedd sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r diwrnod ymadael yn digwydd, a

(b) pe na bai'r mater sy'n ffurfio'r toriad honedig wedi ffurfio toriad o'r Rheoliad hwnnw fel yr oedd yn gymwys yn union cyn y diwrnod ymadael.""

(3) In Schedule 1, in Part 2, in the table, omit row 6.

(4) In Schedule 2, in Part 2, in the table—

(a) in row 2, in column 2, omit "Article 3 of Commission Regulation (EC) No 589/2008", and

(b) omit rows 18 to 20.

(5) In Schedule 3, in the table, in row 1, in column 3, omit "national".

**Amendment of the Poultrymeat (Wales) Regulations 2011**

**4.** In the Poultrymeat (Wales) Regulations 2011, in regulation 2(1), at the appropriate place, insert the following definition—

""third country" ("*trydedd wlad*") means any country or territory other than—

(a) the United Kingdom;

(b) the Bailiwick of Guernsey;

(c) the Bailiwick of Jersey;

(d) the Isle of Man."

**Amendment of the Food (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019**

**5.** In the Food (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019, in regulation 4(2), for sub-paragraph (b) substitute—

"(b) after paragraph (3) insert—

"(4) Paragraph (1)(b)(ii) does not apply in relation to a failure to comply with Article 2(2)(b) of Regulation (EC) No 1825/2000 of the European Parliament and the Council if the matter constituting the alleged contravention—

(a) relates to a product that was placed on the market before the end of the period of 21 months beginning on the day on which exit day falls, and

(b) would not have constituted a contravention of that Regulation as it applied immediately before exit day.""

**Diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**

**6.**—(1) Mae rheoliad 2 o Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle'r geiriau sydd i'w mewnosod yn Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014(**1**) fel rheoliad 15(2) rhodder—

> "(2) Caniateir marchnata cynhyrchion y mae paragraff (1) yn gymwys iddynt nes i'r stociau gael eu disbyddu."

(3) Yn lle'r geiriau sydd i'w mewnosod yn Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 fel rheoliad 15(4) rhodder—

> "(4) Caniateir marchnata cynhyrchion gwin y mae paragraff (3) yn gymwys iddynt nes i'r stociau gael eu disbyddu.
>
> (4A) Caniateir marchnata cynhyrchion eraill y mae paragraff (3) yn gymwys iddynt hyd nes diwedd y cyfnod perthnasol."

**Amendment of the Food Information (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019**

**6.**—(1) Regulation 2 of the Food Information (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019 is amended as follows.

(2) For the words to be inserted into the Food Information (Wales) Regulations 2014(**1**) as regulation 15(2) substitute—

> "(2) Products to which paragraph (1) applies may continue to be marketed until stocks are exhausted."

(3) For the words to be inserted into the Food Information (Wales) Regulations 2014 as regulation 15(4) substitute—

> "(4) Wine products to which paragraph (3) applies may continue to be marketed until stocks are exhausted.
>
> (4A) Other products to which paragraph (3) applies may continue to be marketed until the end of the relevant period."

*Lesley Griffiths*

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
23 Hydref 2019

Minister for Environment, Energy and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
23 October 2019

©ⓗHawlfraint y Goron 2019

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2019

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2014/2303 (Cy. 227), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) S.I. 2014/2303 (W. 227), to which there are amendments not relevant to these Regulations.

£6.90

W201910231017 10/2019

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2019/1376

ISBN 978-0-348-20472-8

9 780348 204728